

# I'r Oen y perthyn y gogoniant

*“Teilwng yw’r Oen a laddwyd i dderbyn gallu, cyfoeth, doethineb a nerth, anrhydedd, gogoniant a mawl.” (adn. 12)*

## Beth am ddarllen Datguddiad 5:1–14 ac yna myfyrio

Mae’n amlwg o’r disgrifiad y mae Ioan yn ei roi i ni o’r nefoedd mai’r peth cyntaf sydd yn ei daro ynglŷn â’r lle yw’r modd y mae y Duwdod yn cael ei ganmol. Ym mhennod 4, Duw y Creawdwr yw’r un sydd yn cael ei addoli. Ym mhennod 5, mae’r Oen yn dod yn wrthrych yr addoliad.

Nid wyf yn siŵr a ydych wedi sylwi, ond mae’n ymddangos i mi fod y mawl sydd yn cael ei ddisgrifio ym mhennod 5 yn rhagori, hyd yn oed ar y mawl ym mhennod 4. Yn sicr, mae’n rhagori o ran maint. Mae’r ddwy bennod yn sôn bod y pedwar arweinydd ysbrydol ar hugain wedi eu meddiannu gan fawl. Felly hefyd y pedwar creadur byw, ac maent yn mynegi eu haddoliad gyda didwylledd a grym. Ond sylwch fod pennod 5 yn ychwanegu: “Yna edrychais a chlywais lais angylion lawer; yr oeddent o amgylch yr orsedd a’r creaduriaid byw a’r henuriaid. A’u rhif oedd myrdd myrddiynau a miloedd ar filoedd meddent â llef uchel: ‘Teilwng yw’r Oen a laddwyd i dderbyn gallu, cyfoeth, doethineb a nerth, anrhydedd, gogoniant a mawl.’” Mae’n ymddangos o addoli’r Oen fod holl ddinas dragwyddol Duw yn atseinio gydag anthemau pob creadur.

Beth tybed mae hyn yn ei ddweud wrthym ni? Mae’n amlwg mai prif ffocws addoliad y nefoedd yw’r Oen. A yw hyn yn gwneud y Tad a’r Ysbryd Glân yn eiddigeddus? Nac ydi, wrth gwrs. Er mai’r Oen yw canolbwynt yr addoliad, mae yna fawl i Dduw y Tad ac mae yna addoliad i Dduw yr Ysbryd Glân hefyd; maent hwythau yn rhan annatod o’n hiachawdwriaeth ni. Yma ar y ddaear, yr Oen yw canolbwynt ein haddoliad, ac mae’r un peth yn wir yn y nefoedd. Yn ôl un emyn: “I’r Oen y perthyn y gogoniant, yn nhir Emanuel.”

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ioan 1:26–36; 1 Cor. 5:7; 1 Pedr 1:19; Dat. 7:9

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth gyhoeddodd Ioan?
2. Beth yw natur yr olygfa o amgylch yr orsedd?

## Gweddi

O Dad, rwy’n gweld yn y nefoedd fod addoliad ohonot ti a dy Fab yn cael ei fynegi yn llafar. Diolch fod gennyf eisoes ran yn yr addoliad yma, a bod yna ran a lle wedi ei gadw i mi trwy waed yr Oen. Diolch yn oes oesoedd. Amen.